## Adroddiad Cau

# Gronfa Buddsoddi Cyfalaf 2014-15: Canolfannau a Gofodau Dysgu Cymraeg

Mrs Gwyneth Môn Hughes
Uwch Reolwr Safonau a Chynhwysiad

Adran Dysgu
Swyddfa'r Cyngor
Llangefni

01248 752 908
gwynethhughes@ynysmon.gov.uk

**Dyddiad: 1:5:17**

1. **Nod ac Amcanion y Project.**

    Cyflwynwyd cais gan Awdurdod Lleol Ynys Môn ar gyfer datblygu ac ymestyn y ddarpariaeth bresennol i hwyrddyfodiaid ysgolion y Sir. Canolwyd y ddarpariaeth trochi ar ddwy ganolfan iaith gynradd a sefydlwyd mewn ymateb i gynnydd yn y mewnlifiad i'r Ynys o deuluoedd di-Gymraeg. Er i'r mewnlifiad sefydlogi dros y blynyddoedd diwethaf mae'r galw blynyddol am gyrsiau dwys yn y Gymraeg ar gyfer y disgyblion hynny sydd yn ymuno â'r ysgolion cynradd ac uwchradd heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg yn parhau yn angen sylweddol. Gyda datblygiadau pellgyrhaeddol Ynys Ynni gwelwyd y posibilrwydd o gynnydd unwaith yn rhagor mewn mewnlifiad a galw newydd am ddarpariaeth rymus i hwyrddyfodiaid.

    Bwriad creiddiol y project oedd galluogi'r Awdurdod i ymateb yn well i'r galw hwnnw trwy

    - **ddatblygu ac uwchraddio'r ddwy ganolfan iaith gynradd,** a
    - **sefydlu canolfan iaith uwchradd newydd ar yr Ynys.**

2. **Sut mae'r nod a'r amcanion wedi cyfrnau at feysydd strategol Iaith fyw:Iaith byw a Bwrw Mlaen.**

    Trwy fuddsoddi'n bwrpasol yn y canolfannau roedd yr Awdurdod yn gallu

    - **gwella y ddarpariaeth bresennol ar gyfer dysgu'r Gymraeg i hwyrddyfodiaid ysgolion cynradd ac uwchradd**
    - **cydweithio gyda phartneriaid allweddol i gynnig darpariaeth i rieni hwyrddyfodiaid ac aelodau eraill o'r gymuned er mwyn hybu'r defnydd o'r iaith mewn teuluoedd a chymunedau.**

O wireddu'r uchod mae'r Awdurdod wedi cyfrannu at gyflawni nodau meysydd strategol 1-3 y Strategaeth Genedlaethol *Iaith fyw: Iaith Byw*

2.1. Er bod Mon yn un o gadarnleoedd y Gymraeg gyda hanner ei phoblogaeth dros 3 oed yn siarad yr iaith dengys Cyfrifiad 2011 bod yr iaith o dan fygythiad gyda gostyngiad dros ddegawd o 2.9% yn ei siaradwyr Cymraeg a chynnydd o 1.6% yn y rhai sydd wedi eu geni tu allan i Gymru. Mae canolfannau iaith a darpariaethau trochi y Sir wedi ymateb yn uniongyrchol i'r bygythiad hwn.Serch hynny ychydig o arain oedd wedi bod ar gael yn y gorffennol i uwchraddio adnoddau a chyfarpar y canolfanau dros amser. Nid oedd yr unedau yn ateb gofynion cyfoes am ddosbarthiadau gyda hwylusterau a chyfarpar o safon. Yn ychwanegol i hyn nid oedd gan y Sir ganolfan hwyrddyfodiad ar gyfer disgyblion Uwchradd a gwelwyd cyfle da i ymestyn ein darpariaeth cynradd i gnnwys hwyrddyfodwyr oedd yn cyrraedd ein hysgolion Uwchradd

Drwy ddefnyddio'r grant llwyddwyd i uwchraddio a datblygu y ddwy ganolfan cynradd i safon dda. Addaswyd yr adeiladau cynradd er mwyn

| Canolfan Iaith Gynradd Moelfre | | |
|---|---|---|
| **Manylion** | **Cost(£)** | **Ffynhonnell Gyllidol** |
| **Costau Cyfalaf** | | |
| Addasu toiledau | 14,000*** | *Cronfa Buddsoddi Cyfalaf 2014-15: Canolfannau a Gofodau Dysgu Cymraeg* |
| Gwaith trydanol | 1,000*** | |
| Peintio, carped ac ati | 1,500*** | |
| Uned ac arwyneb cegin | 1,000*** | |
| Dodrefn | 4,675 | |
| Offer cyfrifiadurol | 22,543 | |
| 10% tuag at gronfa wrth gefn | 4,822 | |
| | ***+ TAW | |
| **Cyfanswm y costau cyfalaf** | **53,040** | |

gallu darparu gwasanaeth effeithiol nid yn unig i'r disgyblion sy'n mynychu'r canolfanau yn ystod y tymor ond i rieni'r disgyblion, ac eraill yn y gymuned sy'n gwneud defnydd o weithgareddau fel 'Blas ar Gymru', gyda nawdd Bwrdd yr Iaith a chydweithrediad Menter Iaith Môn a'r Urdd.

| Canolfan Iaith Gynradd Llanfawr | | |
|---|---|---|
| **Manylion** | **Cost(£)** | **Ffynhonnell Gyllidol** |
| **Costau Cyfalaf** | | |
| Gwaith trydanol | 2,000*** | *Cronfa Buddsoddi Cyfalaf 2014-15: Canolfannau a Gofodau Dysgu Cymraeg* |
| Peintio, carped ac ati | 2,900*** | |
| Gosod arwynebeddau gweithio | 1,000*** | |
| Dodrefn | 3,508 | |
| Offer cyfrifiadurol | 22,843 | |
| 10% tuag at gronfa wrth gefn | 3,343 | |
| | *** + TAW | |
| **Cyfanswm y costau cyfalaf** | **36,774** | |

Buddsoddwyd yn helaeth yn y ddwy ganolfan iaith gynradd drwy uwchraddio'r gofod, prynu offer technoleg fodern, ac arsefydlu toiledau er mwyn ei weud yn hygyrch i bawb.

Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar hybu ymrwymiad rhieni i anfon eu plant i'r canolfanau a gwelwyd gan eraill yn y gymuned bod addysg trochi yn bwysig i'r Sir. Erbyn hyn mae'r ddwy ganolfan ddosbarthiadau deiniadol gydag adnoddau mwyaf diweddar yn cyfoethogi profiadau trochi gyfnod o dymor yn llawn amser. Mae gan y ganofan Iaith wefan ddeiniadol sy'n gyfrwng ardderchof i rannu gwybodath gyda rhieni. Erbyn hyn mae'r ystafelloedd ar gael ac yn addas i'r gymuned ac i oedolion fynychu cyrsiau fin nos.

"Mae'r grant a dderbyniwyd wedi bod yn help mawr i ni allu datblygu ein canolfannau cynradd; mae wedi ein galluogi i ddatblygu a thrawsnewid canolfannau Cymraeg Hwyrddyfodwyr Llanfawr a Moelfre."

Datganiad i'r wasg

**Defnydd dalgylchoedd o'r canolfanau Iaith Cynradd cyn, ac dilyn cyfnod y buddsoddiad.**

| Dalgylch | 2014-2015 | 2015-2016 | 2016-2017 | Cyfanswm fesul dalgylch [7 tymor] hyd at Ionawr 2017 |
|---|---|---|---|---|
| Amlwch | 15 | 20 | 10 | 45 |
| Bodedren | 3 | 4 | 4 | 11 |
| Caergybi | 34 | 20 | 21 | 75 |
| Borth | 10 | 10 | 9 | 29 |
| Llangefni | 0 | 2 | 1 | 3 |
| Cyfanswm Blwyddyn | 62 | 56 | 45 [un tymor] | |

Mae'r data'n yn dangos yr ardaloedd hynny sydd wedi gallu manteisio fwyaf o'r ddarpariaeth, sef ardal Caergybi ac Amlwch. Mae'n hawdd barnu mai yn yr ardaloedd yma mae'r gofyn mwyaf; ond fe all hynny fod yn gamarweiniol gan bod lleoliadau'r canolfanau Iaith o fewn y dalgylchoedd hyn beth bynnag. Gellir ystyried ffactorau eraill hefyd sy'n cael effaith ar defnydd dalgylch:-

- parodrwydd teuleuoedd i'w hanfon eu plant i'r canolfanau sy'n lleol,
- teuleuoedd sy'n lleol gyda gwell adnabyddiaeth o'r darpariaeth
- amharodrwydd disgyblion i deithio mewn tacsi am gyfnod estynedig bob bore a phrynhawn .

Mae'r gostyniad mewn niferoedd defnyddwyr yn ystod 2015-16 yn dilyn y gwaith uwchraddio dros tymor yr haf.
Bu mwy o ddenyddwyr yn ein canolfanau Iaith wedi'r gwaith uwchraddio. Gweler bod bron gymaint wedi mynychu mewn tymor ac oedd mewn dau dymor y flwyddyn blaenorol.

O fewn y sector cynradd gellir tystio felly bod y buddsoddiad mewn uwchraddio ein canolfanau Iaith Cynradd wedi cael effaith gadarnhaol ar gynnydd mewn niferoedd. Mae'r twf sylweddol mewn ffigyrau niferoedd dros y tymor cyntaf 2016-2017 yn cadarnhau hynny. Hefyd mae'r Sir, athrawon, disgyblion a'u rhieni yn ymfalchio bellach mewn ansawdd ac ethos y ddwy ganolfan ac yn gweld bod dosbarthiadau pwrpasol gyda'r adnoddau a'r cyfarpar mwyaf diweddar parthed TG yn codi safonau a brwdfrydedd tuag at yr iaith.
Ategir y gwaith da sy'n cael ei wneud o drochi disgyblion o fewn yr unedau gan Swyddog Safonau y Sir. Nodwyd bod y cyfarpar newydd ar waith yn barhaus a bod disgyblion yn cymryd rhan yn y Gymraeg yn frwdrydig a hyderus.

**Hwyrddyfodiaid Uwchradd**

Nid oedd canolfan iaith uwchradd ym Môn, ac yn dilyn llwyddiannau'r canolfannau cynradd a Chanolfan Uwchradd Gwynedd, roedd awydd sefydlu canolfan hwyrddyfodiad uwchradd. Penderfynwyd ar leoliad yn Ysgol Uwchradd Boderen.
Siomedig oedd cyfranogiad disgyblion Uwchradd i'r fenter drwyddi draw. Gwireddwyd ond am dau dymor yn unig ar ei ffurf fel canolfan hwyrddyfodiad ar gyfer yr uwchradd. Yn ystod y trydydd tymor defnyddwyd yr ystafell i gynnal gweithgareddau trochi ar gyfer disgyblion BL 6 oedd yn trosglwyddo i Ysgol Uwchradd Boderen ym Mis Medi. Roedd hyn yn ddarpariaeth pontio oedd eisoes yn bodoli gan yr ysgol, ond nawr o leiaf roedd ystafell addas i gynnal y gweithgareddau.

**Cynllun Trochi yn Ysgol Uwchradd Bodedern**

Mae'r cynllun trochi, a sefydlwyd gyda chefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn darparu ar gyfer oddeutu 20 o ddisgyblion B6 yn flynyddol gyda'r nod o'u codi o lefel 2 i lefel 3 yn y Gymraeg.

Mynychodd 129 y cynllun trochi ers 2009

| 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2012 | 2013 | 2014 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 20 | 20 | 14 | 17 | 15 | 23 | 20 | 129 |

Rhai o'r rhwystrau cafodd eu nodi am fethiant cynaldwyedd yr uned hwyr ddyfodiad o fewn y sector Uwchradd oedd:-

- bod yr ysgolion Uwchradd yn amharod i rhyddahu disgyblion am dymor cyfan o drochi ar drael cwricwlwm llawn yn eu hysgolion .
- rhieni yn amharod i'w plant golli allan ar addysg o fewn eu hysgolion eu hunain
- lleoliad y ganolfan mewn ardal eithaf Cymreig ac felly roedd cludo disgyblion o ardaloedd ar draws yr Ynys yn ddrud ac yn drafferthus .
- nifer llai o ddisgyblion yn lleol ar gyfartaledd oedd angen y ddarpariaeth yn lleol
- disgyblion eu hunain yn teimlo eu bod yn sefyll allan yn wahanol i bawb arall am eu bod yn cael eu rhoi mewn uned.
- nid oedd arian i barhau cyflogi athrawon cymwys o fewn yr Uned
- nid oedd digon o arain i wireddu cwricwlwm trochi addas ar gyfer y fenter
- diffyg arian i greu ap[iau] addas i ddennu .

Ond yn wahanol i'r canolfanau cynradd defnyddwyd yr ystafell i wireddu rhan fwyaf o'r nod oedd yn ymwneud a :-

cydweithio gyda phartneriaid allweddol i gynnig darpariaeth i rieni hwyrddyfodiaid ac aelodau eraill o'r gymuned er mwyn hybu'r defnydd o'r iaith mewn teuluoedd a chymunedau**.**

Llwyddodd yr ystafell i annong plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r ystafell i hybu gweithgareddau tuag at eu mentrau cymdeithasol Cymraeg eu hunain.

- Sefydlwyd clybiau Cymraeg amser cinio ac ar ol ysgol.
- Lleolwyd swyddfa'r Urdd yn yr Ysgol a death yn lleoliad cyfarfod i'r Ffermwyr Ifanc.
- Gwnaethpwyd ddefnydd o'r ystafell ar fore Sadwrn am flwyddyn i hybu gweithgaredddu Teuleuoedd a Phlant
- Defnyddir yr ystafell yn llwyddiannus i gyflwyno 18 sesiwn hyfforddiant torchi i 12 o gymorthyddion ysgol sy'n gwasanethu ardal Caergybi.

Gellir nodi felly bod y gwariant wdi hyrwyddo gwaith da i ddatblygu'r Gymraeg o fewn ei cymunedau ac wedi bod yn fan cyfarfod hwylus ar gyfer plant a phobl ifanc yr ardal.

Tystiolaeth gwariant Canolfan Iaith Uwchradd Bodedern

| **Canolfan Iaith Uwchradd Bodedern** | | |
|---|---|---|
| **Manylion** | **Cost (£)** | **Ffynhonnell Gyllidol** |
| **Costau Cyfalaf** | | |
| Addasiadau i'r ystafell | 6,000*** | *Cronfa Buddsoddi Cyfalaf 2014-15: Canolfannau a Gofodau Dysgu Cymraeg* |
| Gwaith trydanol | 1,500*** | |
| Peintio, carped ac ati | 2,000*** | |
| Uned adennill gwres | 1,500*** | |
| Gosod arwynebeddau gweithio | 1,500*** | |
| Dodrefn | 4,266 | |
| Offer cyfrifiadurol | 25,197 | |
| 10% tuag at gronfa wrth gefn | 4,446 | |
| | *** + TAW | |
| **Cyfanswm y costau cyfalaf** | **£48,909** | |
| **Datblygu adnodd rhyngweithiol ar sail 'Cynllun y Llan' ar gyfer yr uwchradd** | **30,000** | ***Arian eto i'w ganfod*** |
| **Creu 'ap' ar gyfer rhieni (cynradd ac uwchradd)** | **30,000** | ***Arian eto i'w ganfod*** |

**Huana asesiad o effeithiolrwydd a dylanwad y project**

Ar sail y dystiolaeth mae'r project wedi cyfrannu at gyflawni at nod a'r amcanion drwy

- greu canolfannau ac iddynt amgylchedd deniadol ac ysgogol ar gyfer dysgu'r Gymraeg i hwyrddyfodiaid cynradd ac uwchradd;. E.e. mae'r dosbarthiadau yn ddeiniadol ac mae'r cyfleusterau yn addas ar gyfer gofynion glendid ac Iechyd a Diogelwch cyfredol.

- wneud defnydd mwy creadigol o ofod y canolfannau er mwyn hyrwyddo amrywiaeth o ddulliau ar gyfer dysgu'r Gymraeg; Mae plant a phobl ifanc gyda man addas i gyfarfod amser cinio a fin

nos; mae clybiau a gwersi nos yn defnyddio'r ganolfan yn rheolaidd ym Modedern.

- gynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio yr offer cyfrifiadurol mwyaf cyfoes i gael mynediad i adnoddau diddorol rhyngweithiol yn y Gymraeg, gan gynnwys Cynllun y Llan; E.e. bellach mae gan y ganolfanau offer TG addas ar gyfer recordio a ffilmio

- gynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr gael dysgu'r Gymraeg yn ddigidol o fewn y canolfannau ac i ymestyn y cyfleoedd hynny tu hwnt i furiau ac amseroedd y canolfannau; Rhannu eu gwaith llafar ar wefan y ganolfan er mwyn codi ymwybyddiaeth rhieni a'r Gymuned

- ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd realistig trwy fanteisio ar dechnoleg radio a ffilm; a thrwy

- ddarparu cyfleoedd i gynnal cysylltiadau digidol gyda'r dysgwyr ar ôl iddynt adael y canolfannau a dychwelyd i'w hysgolion a'u cymunedau.

Mae'r project yn sicr wedi cael effaith dda gan bod arsylwadau holiaduron yn dangod bod

- hwyrddyfodiaid yn mwynhau profiadau dysgu'r canolfannau, yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg ac yn symud ymlaen yn llwyddiannus i gyfranogi mewn addysg ddwyieithog;

- hwyrddyfodiad wedi eu hysgogi i ddefnyddio eu Cymraeg o fewn eu teuluoedd a'u cymunedau dwyieithog wedi iddynt fynychu yn ol eu hysgolion yn lleol,

- dysgwyr B6 gyda sgiliau cyfyngedig yn y Gymraeg yn gwella eu sgiliau trwy gyrsiau trochi ac yn symud ymlaen i ddilyn eu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

. Ail nod y cais oedd cynyddu'r defnydd o'r canolfannau iaith gan deuluoedd y disgyblion sydd yn eu mynychu yn ogystal ag oedolion eraill o'r gymuned

Trwy sicrhau bod y gwaith uwchraddio'r canolfannau yn rhoi ystyriaeth bwrpasol i anghenion pobl ifanc ac oedolion bydd modd cynnig y canlynol

- cyfleoedd i gyflwyno sesiynau gloyw Iaith o fewn canolfan uwchradd
- sesiynau dysgu Cymraeg gan Ganolfan y Gymraeg i Oedolion gan gynnwys rhieni plant ifanc sydd yn dymuno dysgu'r Gymraeg o ganlyniad i weithgareddau mudiadau fel Teuleuoedd a Phlant•

- sesiynau codi ymwybyddiaeth, blasu, ac ati, mewn cydweithrediad â chwmnïau fel Horizon, ar gyfer gweithwyr sydd wedi mewnfudo; a
- sesiynau i bobl ifanc a gynhelir trwy gyfrwng y Gymraeg gan yr Urdd a Mudiad y Ffermwyr Ifanc (yn y ganolfan uwchradd).

Gyda chefnogaeth partneriaid allweddol roedd buddsoddiad yn y canolfannau arwain at y deilliannau canlynol

- rhieni plant ifanc a hwyrddyfodiaid i'r ysgolion cynradd ac uwchradd yn derbyn gwybodaeth am yr ardal leol, am yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig;
- rhieni plant ifanc a hwyrddyfodiaid i'r ysgolion cynradd ac uwchradd yn cael mynediad i adnoddau rhyngweithiol oedd yn eu cynorthwyo i ymarfer y Gymraeg gyda'u plant yn y cartref; a
- oedolion o'r gymuned yn cael mynediad i gyrsiau dysgu Cymraeg ac adnoddau cefnogol rhyngweithiol.

## 5. Partneriaid Allweddol

Ymgynghorwyd gyda'r prif bartneriaid lleol a restrir isod a derbyniwyd eu cymeradwyaeth a'u cefnogaeth i'r cais. Mae gan yr Awdurdod yn ogystal a'r canolfanu Iaith berthynas dda iawn gyda'r mudiadau yma ac maent yn dal i gefnogi gweithgareddau i gefnogi hwyrddyfodiad a gweithgareddau i hybu trochi yr Ynys hyd heddiw a gyda bwriad i wneud hynny i'r dyfodol.

| | **Cyswllt** |
|---|---|
| Menter Iaith Môn | Helen Thomas,<br>Prif Swyddog Iaith<br>01248 725733 |
| Horizon Nuclear Power | Richard Foxhall<br>Rheolwr Cysylltiadadau Rhanddeiliaid<br>07807 769265 |
| Canolfan y Gymraeg i Oedolion Gogledd Cymru | Ifor Griffth<br>Cyfarwyddwr y Ganolfan<br>01248 382929 |
| Yr Urdd | Eryl Williams<br>Swyddog Datblygu Môn<br>01407 470010 / 07976003320 |
| Mudiad Ffermwyr Ifanc | Ann Postel<br>Swyddog Datblygu Môn<br>01407 720256 |

## 6. Costau a Llif Arian

### 6.1. Ystyriaethau

Er mwyn adnabod yr anghenion ar gyfer y cais hwn cwblhawyd

- adolygiadau o gyflwr ystafelloedd a chyfleusterau'r canolfannau cynradd, ac addasrwydd yr offer, adnoddau a'r dodrefn ynddynt;
- ymarfer dichonolrwydd i ganfod gofod addas yn Ysgol Uwchradd Bodedern ar gyfer creu canolfan uwchradd;
- awdit o'r dodrefn, adnoddau, offer ac ati fydd eu hangen ar gyfer canolfan uwchradd.

Llwyddwyd i ddodrefnu canolfan Bodedern drwy ailgylchu dodrefn o ysgolion eraill ac felly arbed arian. Erbyn hyn mae'r canofanau Iaith gyda gwefan ei hunain ac yn gyswllt buddiol rhwng yr Uned a rhieni. Mae'r ystafell ym Modedern wedi bod parhau i'w gael ei ddefnyddio fel ardal addas i gynnal gwersi Cymraeg i gymorthyddion a staff dysgu eraill o fewn dalgylch Caergybi yn bennaf.

| Canolfan Iaith Gynradd Moelfre | | |
|---|---|---|
| **Manylion** | **Cost(£)** | **Ffynhonnell Gyllidol** |
| **Costau Cyfalaf** | | |
| Addasu toiledau | 14,000*** | *Cronfa Buddsoddi Cyfalaf 2014-15: Canolfannau a Gofodau Dysgu Cymraeg* |
| Gwaith trydanol | 1,000*** | |
| Peintio, carped ac ati | 1,500*** | |
| Uned ac arwyneb cegin | 1,000*** | |
| Dodrefn | 4,675 | |
| Offer cyfrifiadurol | 22,543 | |
| 10% tuag at gronfa wrth gefn | 4,822 | |
| | ***+ TAW | |
| **Cyfanswm y costau cyfalaf** | **53,040** | |
| **Costau Refeniw** | | |
| Pennaeth y Ganolfan /athrawes gynorthwyol | 100,738 | *Grant y Gymraeg mewn Addysg 2014-15 + Arian yr ALl* |
| Adnoddau dysgu | 1,000 | |
| Diweddaru Cynllun y Llan | 4,000 | *Arian yr ALl* |
| **Cyfanswm y costau refeniw** | **105,738** | |
| **CYFANSWM Y COSTAU** | **158,778** | |

| Canolfan Iaith Gynradd Llanfawr | | |
|---|---|---|
| **Manylion** | **Cost(£)** | **Ffynhonnell Gyllidol** |
| **Costau Cyfalaf** | | |
| Gwaith trydanol | 2,000*** | *Cronfa Buddsoddi Cyfalaf 2014-15: Canolfannau a Gofodau Dysgu Cymraeg* |
| Peintio, carped ac ati | 2,900*** | |
| Gosod arwynebeddau gweithio | 1,000*** | |
| Dodrefn | 3,508 | |
| Offer cyfrifiadurol | 22,843 | |
| 10% tuag at gronfa wrth gefn | 3,343 | |
| | *** + TAW | |
| **Cyfanswm y costau cyfalaf** | **36,774** | |
| **Costau Refeniw** | | |
| Athrawes mewn gofal + athrawes gynorthwyol | 80,625 | *Grant y Gymraeg mewn Addysg 2014-15 + Arian yr ALl* |
| Adnoddau dysgu | 1,000 | |
| Diweddaru Cynllun y Llan | 4,000 | *Arian yr ALl* |
| **Costau Cyfalaf** | **85,625** | |
| **CYFANSWM Y COSTAU** | **122,399** | |

| Canolfan Iaith Uwchradd Bodedern | | |
|---|---|---|
| **Manylion** | **Cost (£)** | **Ffynhonnell Gyllidol** |
| **Costau Cyfalaf** | | |
| Addasiadau i'r ystafell | 6,000*** | *Cronfa Buddsoddi Cyfalaf 2014-15: Canolfannau a Gofodau Dysgu Cymraeg* |
| Gwaith trydanol | 1,500*** | |
| Peintio, carped ac ati | 2,000*** | |
| Uned adennill gwres | 1,500*** | |
| Gosod arwynebeddau gweithio | 1,500*** | |
| Dodrefn | 4,266 | |
| Offer cyfrifiadurol | 25,197 | |
| 10% tuag at gronfa wrth gefn | 4,446 | |
| | *** + TAW | |
| **Cyfanswm y costau cyfalaf** | **£48,909** | |
| **Costau Refeniw** | | |
| Gweithgareddau dwys i hwyryddyfodiaid uwchradd | 6,000 | *Grant y Gymraeg mewn Addysg 2014-15* |
| Cwrs 'Trochi Hwyr' | 5,176 | |
| Cydgysylltwyr iaith dalgylchol | 10,050 | |
| **Cyfanswm y costau refeniw** | **21,226** | |
| **CYFANSWM Y COSTAU** | **70,135** | |
| **Datblygu adnodd rhyngweithiol ar sail 'Cynllun y Llan' ar gyfer yr uwchradd** | **30,000** | ***Arian eto i'w ganfod*** |
| **Creu 'ap' ar gyfer rhieni (cynradd ac uwchradd)** | **30,000** | ***Arian eto i'w ganfod*** |